# Bwrsariaethau *ac* Ysgoloriaethau

2024

Prif bwrpas Prifysgol Metropolitan Caerdydd yw darparu addysg o ansawdd uchel ac effaith uchel sy'n canolbwyntio ar ymarfer ac a gydnabyddir yn broffesiynol mewn partneriaeth â'n myfyrwyr. Trwy gydweithio, byddwn yn galluogi pob myfyriwr i wireddu ei botensial i wneud cyfraniadau rhagorol o ran ei lwyddiant ei hun ac i greu buddion gwirioneddol ar gyfer cymdeithas yn ehangach. Cydnabyddwn hefyd fod mynychu'r brifysgol yn gyfnod cyffrous mewn bywyd ac rydym yn ymdrechu i sicrhau bod astudio yn ein cymuned yn bleserus a chynhyrchiol fel ei gilydd.

Er mwyn eich helpu chi i wireddu eich llawn botensial, rydym wedi creu amrywiaeth o fwrsariaethau ac ysgoloriaethau gyda'r nod o'ch cefnogi ar eich taith academaidd, gyda gwobrau i dalu am gyfleusterau, ffioedd dysgu, ac arian parod ar gael, yn dibynnu ar eich amgylchiadau.

**Mae manylion llawn ar gyfer pob gwobr ar gael ar www.cardiffmet.ac.uk/scholarships**

**Gobeithiwn eich croesawu i'n cymuned academaidd yn y dyfodol agos.**



Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

# Bwrsariaethau *ac* Ysgoloriaethau 2024

**Bwrsariaeth Gofalwyr**
**(gwobr arian parod o hyd at £1000 yn ystod blwyddyn gyntaf eich astudiaethau, ar gyfer myfyrwyr Cartref)**

- Ydych chi’n gofalu am rywun ac yn darparu cefnogaeth ddi-dâl i deulu a/neu ffrindiau?

Efallai eich bod chi’n gymwys ar gyfer ein Bwrsariaeth Gofalwyr. Mae’r pecyn cymorth Bwrsariaeth Gofalwyr yn pennu aelod o staff penodol ichi fel mentor i’ch cefnogi a’ch cynghori ar bob agwedd o fywyd prifysgol, yn ogystal â gwobr arian parod o hyd at £1,000 yn ystod blwyddyn gyntaf eich astudiaethau

**Ysgoloriaethau Chwaraeon Perfformiad ac Elît**
**(gwobr arian parod)**

Dilyniant o gynlluniau ysgoloriaeth ar gyfer y sawl sy'n rhagori mewn chwaraeon (gan gynnwys perfformio a/neu hyfforddi). Mae'r meini prawf cymhwysedd yn amrywio ar gyfer pob cynllun, i gefnogi ceisiadau o ystod o fyfyrwyr

**Gwobr Noddfa**
**(talu ffioedd dysgu’n llawn, a thalu am gyfleusterau)**

Ar gyfer y sawl sydd â statws mudo afreolaidd, yn agored ar gyfer ceisiadau o Wanwyn 2024 pan gyhoeddir y meini prawf llawn.

Y tu allan i Met Caerdydd, gall fod opsiynau cyllido ar gael ichi’n dibynnu ar eich amgylchiadau unigol. Rydym wedi rhestru rhai o'r opsiynau y daethom ar eu traws sydd ar gael ar ein gwefan Bwrsariaethau ac Ysgoloriaethau.

## Yn Benodol i Fyfyrwyr Israddedig

**Bwrsariaeth i Ymadawyr Gofal a Myfyrwyr sydd wedi Ymddieithrio**
**(hyd at £1,000 o arian parod y flwyddyn, ar gyfer myfyrwyr Cartref)**

- A fuoch chi mewn gofal ers ichi fod yn 14 am o leiaf 13 wythnos?
- Ydych chi’n astudio heb gymorth rhwydwaith teuluol?

Cofiwch dicio’r blwch ar eich ffurflen UCAS i ddatgan eich profiad o fod mewn gofal oherwydd efallai eich bod chi’n gymwys ar gyfer ein bwrsariaeth Ymadawyr Gofal a Myfyrwyr sydd wedi Ymddieithrio, a chysylltwch â ni os ydych chi’n ymgeisio fel myfyriwr sydd wedi ymddieithrio. Cynigir y fwrsariaeth Bywyd Astudio’n awtomatig i ymadawyr gofal/myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio hefyd (gweler isod).

### Pecyn Cymorth GIG
### (cymorth astudio, a mynediad at gyfrifiadur ar fenthyg)

Pecyn cymorth ar gyfer myfyrwyr Cartref, o un o'r 10% o ardaloedd o amddifadedd mwyaf yng Nghymru, sy'n dechrau cwrs israddedig llawnamser a gefnogir gan y GIG. Mae'r pecyn yn cynnwys mynediad at gyfrifiadur ar fenthyg, ymarferion sgiliau astudio, tiwtora, mentora, a chymorth gan gyfoedion, ymysg buddion eraill, i roi'r cyfarpar ichi lwyddo ar eich cwrs.

### Gwobr Bywyd Astudio
### (gwobr o hyd at £850 i dalu am gyfleusterau)

Prif elfen y wobr hon yw lwfans arlwyo hael, ac mae hefyd yn cynnwys lwfansau i helpu â llety, argraffu, a theithio. Yn agored i ymgeiswyr Cartref israddedig sy'n byw mewn cymdogaethau sydd â chyfraddau cyfranogiad isel gydag incwm aelwyd o dan £30,000 y flwyddyn.

## Yn Benodol i Fyfyrwyr Ôl-raddedig

### Gostyngiad i Gyn-fyfyrwyr
### (gostyngiad o hyd at 20% oddi ar ffioedd dysgu)

Os ydych chi'n fyfyriwr graddedig o'r Brifysgol, neu'n astudio ar lefel ôl-raddedig neu israddedig ar hyn o bryd, fe allech fanteisio ar y Gostyngiad i Gyn-fyfyrwyr ar gyfer eich astudiaethau ôl-raddedig yn y dyfodol ym Met Caerdydd.

Bydd manylion am fwrsariaethau ac ysgoloriaethau pellach ar gael yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan









I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'n Bwrsariaethau ac Ysgoloriaethau, cysylltwch â ni ar **scholarship@cardiffmet.ac.uk**